Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Ein Strategaeth ar gyfer 2026-2030

Dyfodol lle mae gofal iechyd yng Nghymru yn ddiogel, yn effeithiol, ac o ansawdd uchel i bawb.

Rhowch



Rhagair
Pwy Ydyn Ni
Yr Hyn a Wnawn
Ein Diben, Ein Gweledigaeth a'n Gwerthoedd
Ein Blaenoriaethau Strategol
Rhoi Pobl yn Gyntaf
Dysgu a Gweithio Gyda'n Gilydd
Buddsoddi yn Ein Pobl
Cymryd Camau sydd o Bwys
Llywodraethu
Y Gymraeg ym Maes Iechyd a Gofal
Casgliad
Cysylltu â Ni

**Dyfodol lle mae gofal iechyd yng Nghymru yn ddiogel, yn effeithiol, ac o ansawdd uchel i bawb.**



# Rhagair

## Yn Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC), rydym yn chwarae rôl allweddol o ran gwella ansawdd a diogelwch gofal iechyd ledled Cymru.

Mae ein Strategaeth ar gyfer 2026-2030 yn gosod cyfeiriad clir ac uchelgeisiol ar gyfer sut y byddwn yn ymdrin â'r heriau a'r cyfleoedd sydd o'n blaen, gan roi pobl wrth wraidd popeth a wnawn a defnyddio ein llais annibynnol i ysgogi gwelliannau ystyrlon a chynaliadwy.

Mae'r strategaeth hon yn adeiladu ar yr hyn rydym wedi'i ddysgu a'r hyn rydym wedi'i glywed gan y rhai sy'n defnyddio ac yn darparu gofal iechyd. Mae'n nodi sut rydym am weithio yn y dyfodol. **Mae'r strategaeth hon wedi'i llywio'n uniongyrchol gan leisiau cleifion, gofalwyr, gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, a rhanddeiliaid o bob cwr o Gymru, a gymerodd ran yn ein hymgynghoriad cenedlaethol. Rydym yn ddiolchgar i bawb a gyfrannodd, mae ein barn a'ch profiadau wedi bod yn amhrisiadwy wrth lywio ein blaenoriaethau a'n dull. Dros gyfnod o 12 wythnos, cawsom 2,353 o gyflwyniadau, sy'n adlewyrchu awydd pobl ledled Cymru i wella gofal iechyd.**

Mae'r strategaeth hon yn adlewyrchu ein ffocws o'r newydd ar gydweithio, defnyddio gwybodaeth a phrofiad bywyd yn ddoethach, ac ymrwymiad i gymryd camau amserol pan na fydd gofal yn cyrraedd y safon. Mae hefyd yn cydnabod pwysigrwydd parhau i herio ein hunain i wella'r ffordd rydym yn gweithio, gan groesawu arloesedd, ymateb i flaenoriaethau cenedlaethol a bod yn glir o ran beth yw gofal da. **Mae'n tynnu sylw at ein cynlluniau i ddathlu arferion da a chanlyniadau cadarnhaol er mwyn rhannu gwersi a ddysgwyd ar draws y system gofal iechyd.**

Mae ein pobl yn rhan ganolog o'n gweledigaeth. Byddwn yn parhau i gefnogi, datblygu a grymuso ein timau i sicrhau eu bod yn meddu ar y wybodaeth, y sgiliau a'r adnoddau sydd eu hangen arnynt i wneud gwahaniaeth. **Byddwn yn parhau i atgyfnerthu'r ffordd rydym yn gweithio yn fewnol, gan sicrhau bod ein prosesau yn effeithlon, yn dryloyw ac yn canolbwyntio ar effaith.** Rydym yn falch o gyflwyno strategaeth feiddgar a blaengar sy'n atgyfnerthu ein rôl fel llais dibynadwy a dylanwadol, gan lywio gwelliannau mewn system gofal iechyd sy'n datblygu'n gyson i ddiwallu anghenion pawb yng Nghymru.

**Byddwn yn parhau i sicrhau bod ein gwaith yn cefnogi blaenoriaethau cenedlaethol fel gwella mynediad i wasanaethau a lleihau anghydraddoldebau. Mae'r strategaeth hon wedi'i llywio gan fframweithiau deddfwriaethol a pholisi allweddol sy'n llywio gofal iechyd yng Nghymru, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.**



**Alun Jones**
Prif Weithredwr
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

"Mae'r strategaeth hon yn nodi cam pwysig ymlaen i AGIC. Mae'n adlewyrchu ein huchelgais i fod yn rym annibynnol dros wella ym maes gofal iechyd. Rydym yn ymrwymedig i roi pobl yn gyntaf, buddsoddi yn ein timau a gweithio mewn partneriaeth i fynd i'r afael â'r risgiau a'r heriau pwysicaf yn y system. Yn anad dim, rydym am wneud gwahaniaeth i gleifion, i gymunedau ac i ansawdd gofal iechyd ledled Cymru."

agic hiw | Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales


Rhagair

Pwy Ydyn Ni

Yr Hyn a Wnawn

Ein Diben, Ein Gweledigaeth a'n Gwerthoedd

Ein Blaenoriaethau Strategol

Rhoi Pobl yn Gyntaf

Dysgu a Gweithio Gyda'n Gilydd

Buddsoddi yn Ein Pobl

Cymryd Camau sydd o Bwys

Llywodraethu

Y Gymraeg ym Maes Iechyd a Gofal

Casgliad

Cysylltu â Ni


**Dyfodol lle mae gofal iechyd yng Nghymru yn ddiogel, yn effeithiol, ac o ansawdd uchel i bawb.**

# Pwy Ydyn Ni

Ni yw rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd a'r arolygiaeth ar gyfer gwasanaethau'r GIG yng Nghymru. Ein rôl yw gwirio bod gofal iechyd yn ddiogel, yn effeithiol ac yn diwallu anghenion pobl a chymunedau.



Rydym yn tynnu sylw at arferion da pan fyddwn yn dod ar eu traws, ac yn cymryd camau pan na fydd gofal yn cyrraedd y safonau neu'n peri risg i ddiogelwch. Mae'r hyn sy'n bwysig i bobl wrth wraidd ein gwaith. Rydym yn ystyried a yw gwasanaethau wedi'u dylunio ar gyfer y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu, ac yn herio anghydraddoldebau lle bynnag y bônt.

**Rydym yn ymrwymedig i fod yn weladwy ac yn hygyrch i'r cyhoedd, gan sicrhau y caiff ein rôl, ein pwerau, a'n diben eu deall yn eang. Byddwn yn gwella'r ffordd rydym yn rhannu ein gwaith a'n canfyddiadau ymhellach, er mwyn sicrhau eu bod yn glir, yn hygyrch ac yn ystyrlon i bobl.**

Caiff cydraddoldeb ac amrywiaeth eu hymgorffori ym mhopeth a wnawn. Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar sut mae gwasanaethau yn cyrraedd y rhai sy'n wynebu'r rhwystrau mwyaf i gael gafael arnynt a'r canlyniadau iechyd gwaethaf.

Mae gennym gyfrifoldebau penodol i ystyried hawliau pobl sy'n cael gofal o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl a'r Ddeddf Galluedd Meddyliol, gan gynnwys y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid. Mae'r dyletswyddau hyn yn berthnasol i ofal iechyd annibynnol a'r GIG.

Rydym hefyd yn gweithio gydag arolygiaethau eraill i adolygu gofal iechyd a ddarperir mewn lleoliadau nad ydynt yn ymwneud â gofal iechyd, fel carchardai, gan sicrhau bod safonau'n cael eu cynnal ym mhob man y darperir gofal.

- Rhagair
- Pwy Ydyn Ni
- Yr Hyn a Wnawn
- Ein Diben, Ein Gweledigaeth a'n Gwerthoedd
- Ein Blaenoriaethau Strategol
  - Rhoi Pobl yn Gyntaf
  - Dysgu a Gweithio Gyda'n Gilydd
  - Buddsoddi yn Ein Pobl
  - Cymryd Camau sydd o Bwys
- Llywodraethu
- Y Gymraeg ym Maes Iechyd a Gofal
- Casgliad
- Cysylltu â Ni

**Dyfodol lle mae gofal iechyd yng Nghymru yn ddiogel, yn effeithiol, ac o ansawdd uchel i bawb.**

# Yr Hyn a Wnawn



**Cofrestru, rheoleiddio ac arolygu** gwasanaethau gofal iechyd annibynnol, gan gymryd camau gorfodi lle na chaiff safonau eu cyrraedd.

**Arolygu gwasanaethau'r GIG** ledled Cymru i sicrhau ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd.

**Cynnal adolygiadau cenedlaethol** i archwilio materion allweddol yn drwyadl, a llywio gwelliant.

**Monitro pryderon ac atgyfeiriadau diogelu**, gan weithredu'n gyflym wrth i risgiau gael eu nodi.

**Argymell gwelliannau** – ar unwaith ac ar gyfer yr hirdymor – i atgyfnerthu gofal ym mhob rhan o'r sector annibynnol a sector y GIG.

**Cymryd camau gorfodi rheoliadol** er mwyn sicrhau bod darparwyr gofal iechyd annibynnol yn bodloni gofynion deddfwriaethol.

## Caiff ein gwaith ei gyflawni gan y canlynol:

- Tîm ymroddedig o staff sydd wedi'u lleoli ledled Cymru, sy'n cefnogi ein swyddogaethau sicrwydd a rheoliadol.
- Adolygwyr Cymheiriaid Arbenigol a gaiff eu recriwtio'n barhaus i ddarparu gwybodaeth arbenigol a chyfredol am wasanaethau a safonau ansawdd.
- Panel o Adolygwyr Profiad y Claf ac Arbenigwyr drwy Brofiad i gasglu barn cleifion yn ystod arolygiad.
- Panel o Seiciatryddion Ymgynghorol Annibynnol sy'n darparu ein gwasanaeth Meddygon a Benodwyd i Roi Ail Farn.

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales


- Rhagair
- Pwy Ydyn Ni
- Yr Hyn a Wnawn
- Ein Diben, Ein Gweledigaeth a'n Gwerthoedd
- Ein Blaenoriaethau Strategol
  - Rhoi Pobl yn Gyntaf
  - Dysgu a Gweithio Gyda'n Gilydd
  - Buddsoddi yn Ein Pobl
  - Cymryd Camau sydd o Bwys
- Llywodraethu
- Y Gymraeg ym Maes Iechyd a Gofal
- Casgliad
- Cysylltu â Ni


**Dyfodol lle mae gofal iechyd yng Nghymru yn ddiogel, yn effeithiol, ac o ansawdd uchel i bawb.**

# Ein Diben, Ein Gweledigaeth a'n Gwerthoedd

### Ein Diben
Rydym yn gwirio diogelwch ac ansawdd gofal iechyd ledled Cymru.

### Ein Gweledigaeth
Dyfodol lle mae gofal iechyd yng Nghymru yn ddiogel, yn effeithiol ac o ansawdd uchel i bawb.

### Ein Gwerthoedd
Mae ein gwerthoedd yn llywio ein gwaith o ddydd i ddydd ac yn sicrhau bod pobl yn parhau wrth wraidd popeth a wnawn.

### Rydym yn:

- **Annibynnol**: rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- **Gwrthrychol**: rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- **Pendant**: rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- **Cynhwysol**: rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- **Cymesur**: rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf



Mae ein gwaith hefyd yn dilyn Cod Ymddygiad sy'n sicrhau ymarfer annibynnol seiliedig ar dystiolaeth ac ymddiriedaeth y cyhoedd, wedi'i lywio gan chwe egwyddor graidd:

1. **Hygrededd** – Gweithredu mewn ffordd onest a moesegol bob amser
2. **Gwrthrychedd** – Seilio penderfyniadau ar dystiolaeth, nid barn
3. **Didueddrwydd** – Parhau'n deg ac yn ddiduedd
4. **Tryloywder** – Bod yn agored am ein gwaith a'n canfyddiadau
5. **Atebolrwydd** – Cymryd cyfrifoldeb am ein gweithredoedd
6. **Parch** – Gwerthfawrogi pobl, amrywiaeth a hawliau

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales


- Rhagair
- Pwy Ydyn Ni
- Yr Hyn a Wnawn
- Ein Diben, Ein Gweledigaeth a'n Gwerthoedd
- Ein Blaenoriaethau Strategol
  - Rhoi Pobl yn Gyntaf
  - Dysgu a Gweithio Gyda'n Gilydd
  - Buddsoddi yn Ein Pobl
  - Cymryd Camau sydd o Bwys
- Llywodraethu
- Y Gymraeg ym Maes Iechyd a Gofal
- Casgliad
- Cysylltu â Ni


**Dyfodol lle mae gofal iechyd yng Nghymru yn ddiogel, yn effeithiol, ac o ansawdd uchel i bawb.**

# Ein Blaenoriaethau Strategol

## Rhoi Pobl yn Gyntaf

Byddwn yn canolbwyntio ar y risgiau mwyaf y mae pobl a chymunedau yn eu hwynebu wrth iddynt ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd nawr ac yn y dyfodol.

Yn ystod yr ymgynghoriad a'r gwaith ymgysylltu a gynhaliwyd wrth ddatblygu'r strategaeth hon, clywsom fod amseroedd aros a mynediad i wasanaethau yn rhwystrau sylweddol i ofal effeithiol o hyd. Nododd yr adborth hefyd yr angen am ofal sy'n canolbwyntio ar y claf a phwysigrwydd gwasanaethau Cymraeg ym maes iechyd a gofal.



### Yr hyn y byddwn yn ei wneud:

- Deall profiad bywyd yn well drwy daith y claf, gan gynnwys mynediad at ofal a'i ansawdd a pha mor dda y mae gwasanaethau yn gweithio gyda'i gilydd.
- Gwella'r ffordd rydym yn gwneud ein gwaith ac yn adrodd arno er mwyn ei gwneud yn haws i wasanaethau ddysgu a gweithredu.
- Ymchwilio i ddulliau cynhwysol ac arloesol o ymgysylltu â'r cyhoedd, staff gofal iechyd a sefydliadau partner, a'u hintegreiddio.
- Gwella'r ffordd rydym yn defnyddio ac yn rhannu gwybodaeth am risgiau i gleifion gyda'n timau er mwyn llywio ein gwaith sicrwydd.
- Herio anghydraddoldebau yn rhagweithiol a sicrhau bod lleisiau pobl yn llywio ein gwaith a dyfodol gofal iechyd.
- Atgyfnerthu ymwybyddiaeth y cyhoedd o'n rôl, ein pwerau a'n diben, gan sicrhau bod pobl yn gwybod sut i gysylltu â ni a'r hyn y gallant ei ddisgwyl pan fyddant yn gwneud hynny.



Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales


- Rhagair
- Pwy Ydyn Ni
- Yr Hyn a Wnawn
- Ein Diben, Ein Gweledigaeth a'n Gwerthoedd
- Ein Blaenoriaethau Strategol
  - Rhoi Pobl yn Gyntaf
  - Dysgu a Gweithio Gyda'n Gilydd
  - Buddsoddi yn Ein Pobl
  - Cymryd Camau sydd o Bwys
- Llywodraethu
- Y Gymraeg ym Maes Iechyd a Gofal
- Casgliad
- Cysylltu â Ni


**Dyfodol lle mae gofal iechyd yng Nghymru yn ddiogel, yn effeithiol, ac o ansawdd uchel i bawb.**

# Ein Blaenoriaethau Strategol



## Dysgu a Gweithio Gyda'n Gilydd

Byddwn yn cydweithio â phartneriaid er mwyn rhannu gwersi a ddysgwyd ac ysgogi gwelliannau parhaus.

Rydym yn parhau i ddatblygu amrywiaeth o ddulliau cydweithio, gan ganolbwyntio ar gydgynllunio a darpariaeth effeithiol i wella effaith ein gwaith, a chodi safonau gwasanaethau gofal iechyd. Nododd ymatebwyr i'n hymgynghoriad strategol rôl unigryw AGIC o ran rhannu gwersi a ddysgwyd o arolygiadau a gwaith sicrwydd, gan nodi themâu a chanfyddiadau cyffredin, gan gynnwys hyrwyddo arferion gorau.

Mae ein Proses newydd ar gyfer Ymgysylltu â'r GIG, a roddwyd ar waith ar 6 Hydref 2025, wedi'i dylunio i sicrhau cysondeb, atgyfnerthu cydberthnasau cydweithredol, a gwella llif deallusrwydd a gwybodaeth o fewn AGIC a rhwng AGIC a sefydliadau GIG Cymru.

### Yr hyn y byddwn yn ei wneud:

- Meithrin partneriaethau cryf ac effeithiol i rannu gwybodaeth a chefnogi gwelliant ar draws gwasanaethau gofal iechyd.
- Cydweithio ag eraill i fynd i'r afael â materion cenedlaethol sy'n effeithio ar gofal iechyd.
- Olrhain ein gwaith mewn modd amserol i sicrhau bod ein canfyddiadau yn llywio gwelliannau.
- Cynllunio a chyflawni rhaglen a arweinir gan wybodaeth o waith seiliedig ar adolygiadau sy'n adlewyrchu blaenoriaethau gofal iechyd ac yn canolbwyntio ar yr hyn sydd bwysicaf i bobl.
- Sicrhau bod cleifion, gofalwyr a staff gofal iechyd rheng flaen yn cael eu cynnwys yn ein gwaith, gan gynnwys wrth gynllunio, darparu a gwerthuso.



Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales


- Rhagair
- Pwy Ydyn Ni
- Yr Hyn a Wnawn
- Ein Diben, Ein Gweledigaeth a'n Gwerthoedd
- Ein Blaenoriaethau Strategol
  - Rhoi Pobl yn Gyntaf
  - Dysgu a Gweithio Gyda'n Gilydd
  - Buddsoddi yn Ein Pobl
  - Cymryd Camau sydd o Bwys
- Llywodraethu
- Y Gymraeg ym Maes Iechyd a Gofal
- Casgliad
- Cysylltu â Ni


**Dyfodol lle mae gofal iechyd yng Nghymru yn ddiogel, yn effeithiol, ac o ansawdd uchel i bawb.**

# Ein Blaenoriaethau Strategol

## Buddsoddi yn Ein Pobl

Byddwn yn sicrhau bod ein pobl yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, eu gwerthfawrogi a'u grymuso.

Mae ein gweithlu yn ganolog i sicrhau dyfodol lle mae gofal iechyd yng Nghymru yn ddiogel, yn effeithiol ac o ansawdd uchel i bawb. Ein nod yw creu amgylchedd gwaith cynhwysol lle y gall staff wneud y defnydd gorau o'u sgiliau a'u profiad i ymateb i'r cyfleoedd a'r heriau a wynebwn wrth gyflawni ein gwaith. Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar ein strategaeth yn tynnu sylw at bwysigrwydd buddsoddi yn ein gweithlu, a sut mae hyn yn sail i arolygiadau cyson ac o ansawdd uchel.

### Yr hyn y byddwn yn ei wneud:

- Croesawu arloesedd a mabwysiadu adnoddau digidol er mwyn cynyddu ein heffaith a'n heffeithlonrwydd.
- Creu diwylliant o fyfyrio a dysgu, lle rydym yn herio ein hunain i wella'n barhaus.
- Mesur effaith newidiadau mewnol er mwyn sicrhau eu bod yn arwain at welliannau ystyrlon i'n pobl a'r ffordd rydym yn gweithio.
- Darparu llwybrau datblygu cliriach a sicrhau bod ein staff yn meddu ar yr adnoddau sydd eu hangen arnynt i weithio'n effeithiol.
- Adeiladu ar y gwaith o roi ein Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ar waith, gan gefnogi diwylliant cynhwysol.



- Rhagair
- Pwy Ydyn Ni
- Yr Hyn a Wnawn
- Ein Diben, Ein Gweledigaeth a'n Gwerthoedd
- Ein Blaenoriaethau Strategol
  - Rhoi Pobl yn Gyntaf
  - Dysgu a Gweithio Gyda'n Gilydd
  - Buddsoddi yn Ein Pobl
  - Cymryd Camau sydd o Bwys
- Llywodraethu
- Y Gymraeg ym Maes Iechyd a Gofal
- Casgliad
- Cysylltu â Ni

**Dyfodol lle mae gofal iechyd yng Nghymru yn ddiogel, yn effeithiol, ac o ansawdd uchel i bawb.**

# Ein Blaenoriaethau Strategol



## Cymryd Camau sydd o Bwys

Byddwn yn cymryd camau i wella ansawdd a diogelwch gofal iechyd ar gyfer dyfodol Cymru.

Mae AGIC yn bodoli er mwyn gwneud gwahaniaeth ystyrlon i ddiogelwch, ansawdd ac effeithiolrwydd gofal ledled Cymru. Ein nod yw sicrhau bod ein gweithgareddau rheoleiddiol yn gymesur ac yn gadarn lle bo angen, er mwyn i ni allu cefnogi gwelliant ac amddiffyn cleifion.

Mae ein proses Gwasanaeth sy'n Peri Pryder ar gyfer y GIG yn parhau i fod yn un o gryfderau ein dull o roi sicrwydd i'r cyhoedd am ansawdd a diogelwch gwasanaethau gofal iechyd.

### Yr hyn y byddwn yn ei wneud:

- Rheoleiddio ac arolygu gwasanaethau gofal iechyd gan ddefnyddio dulliau clir, teg ac arloesol.
- Cymryd camau gorfodi pendant pan na fydd gofal yn cyrraedd y safonau, gan sicrhau bod darparwyr yn atebol.
- Adolygu ac addasu ein dulliau sicrwydd i adlewyrchu anghenion system gofal iechyd fodern sy'n datblygu.
- Cryfhau'r ffordd rydym yn gwrando ar bryderon ac yn ymateb iddynt, gan gynnwys drwy ein sianeli chwythu'r chwiban, er mwyn diogelu pobl a chefnogi gwelliant.
- Cyhoeddi gwybodaeth glir am y camau rydym wedi'u cymryd a'u heffaith.



- Rhagair
- Pwy Ydyn Ni
- Yr Hyn a Wnawn
- Ein Diben, Ein Gweledigaeth a'n Gwerthoedd
- Ein Blaenoriaethau Strategol
  - Rhoi Pobl yn Gyntaf
  - Dysgu a Gweithio Gyda'n Gilydd
  - Buddsoddi yn Ein Pobl
  - Cymryd Camau sydd o Bwys
- Llywodraethu
- Y Gymraeg ym Maes Iechyd a Gofal
- Casgliad
- Cysylltu â Ni

**Dyfodol lle mae gofal iechyd yng Nghymru yn ddiogel, yn effeithiol, ac o ansawdd uchel i bawb.**

# Llywodraethu

Caiff y strategaeth hon ei chefnogi gan gamau gweithredu clir, adnoddau ymarferol a gweithgarwch ymgysylltu parhaus er mwyn sicrhau canlyniadau ystyrlon a gwell i bobl a gwasanaethau gofal iechyd ledled Cymru.

Byddwn yn defnyddio ein strwythurau llywodraethu i sicrhau bod y blaenoriaethau a nodir yn y Cynllun Strategol hwn yn cael eu cyflawni'n effeithiol.

Mae ein Huwch-dîm Arwain yn monitro cynnydd yn erbyn y broses o gyflawni ein blaenoriaethau strategol yn rheolaidd.

Mae cyfarfodydd misol o'n Pwyllgor Risg ac Uwchgyfeirio yn ein helpu i barhau'n ystwyth ac yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n codi ar draws gwasanaethau.

Hefyd, mae ein Bwrdd Cynllunio Strategol yn sicrhau ein bod yn gosod cyfeiriad strategol hirdymor ar gyfer ein rhaglenni adolygu ac arolygu ac yn cymeradwyo dulliau sicrwydd newydd sy'n cefnogi blaenoriaethau'r dyfodol.



Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales


- Rhagair
- Pwy Ydyn Ni
- Yr Hyn a Wnawn
- Ein Diben, Ein Gweledigaeth a'n Gwerthoedd
- Ein Blaenoriaethau Strategol
  - Rhoi Pobl yn Gyntaf
  - Dysgu a Gweithio Gyda'n Gilydd
  - Buddsoddi yn Ein Pobl
  - Cymryd Camau sydd o Bwys
- Llywodraethu
- Y Gymraeg ym Maes Iechyd a Gofal
- Casgliad
- Cysylltu â Ni


**Dyfodol lle mae gofal iechyd yng Nghymru yn ddiogel, yn effeithiol, ac o ansawdd uchel i bawb.**

# Y Gymraeg ym Maes Iechyd a Gofal

Rydym yn cydnabod ein cyfrifoldeb i gefnogi uchelgeisiau fframwaith strategol *Mwy na Geiriau* Llywodraeth Cymru, sy'n hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg ym maes iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol.

Mae ein dull yn canolbwyntio ar ymgorffori'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg yn ein methodolegau arolygu, gan sicrhau y bod pobl yn gallu cael gwasanaethau yn Gymraeg heb fod angen iddynt ofyn amdanynt.

Drwy ein gwaith, rydym yn adrodd ar enghreifftiau cadarnhaol o'r Cynnig Rhagweithiol mewn ffordd ymarferol ac yn nodi meysydd i'w gwella er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n cynnig darpariaeth Gymraeg mewn modd rhagweithiol. Wrth wneud hynny, rydym yn rhannu gwersi a ddysgwyd ac yn annog arferion da ar draws gwasanaethau gofal iechyd.



Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales


- Rhagair
- Pwy Ydyn Ni
- Yr Hyn a Wnawn
- Ein Diben, Ein Gweledigaeth a'n Gwerthoedd
- Ein Blaenoriaethau Strategol
  - Rhoi Pobl yn Gyntaf
  - Dysgu a Gweithio Gyda'n Gilydd
  - Buddsoddi yn Ein Pobl
  - Cymryd Camau sydd o Bwys
- Llywodraethu
- Y Gymraeg ym Maes Iechyd a Gofal
- Casgliad
- Cysylltu â Ni



**Dyfodol lle mae gofal iechyd yng Nghymru yn ddiogel, yn effeithiol, ac o ansawdd uchel i bawb.**

# Casgliad

Rydym wedi gosod blaenoriaethau strategol heriol i ni ein hunain i'w cyflawni erbyn 2030. I gyflawni'r rhain, byddwn yn parhau i atgyfnerthu'r ffordd rydym yn gweithredu.

Mae hyn yn cynnwys gwrando ar ein staff, gofyn am adborth gan y gwasanaethau rydym yn eu harolygu a'u rheoleiddio, a defnyddio gwybodaeth am brofiadau cleifion. Drwy'r camau gweithredu a amlinellir yn y strategaeth hon, byddwn yn defnyddio ein llais annibynnol i ddylanwadu ar newid a dwyn gwasanaethau i gyfrif, er mwyn sicrhau bod diogelwch a safonau ansawdd yn cael eu gwella.





Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Cysylltu â Ni




Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful CF48 1UZ

**Drwy e-bost:** agic@llyw.cymru
**Dros y ffôn:** 0300 062 8163

**www.agic.org.uk**


**Dewch o hyd i ni ar:**


© Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG52652, ISBN digidol 978-1-83745-225-5
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg.